UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Mis Medi 2009

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae UCAC yn cefnogi'r cynnig i gael gwared ar y gofyniad i gorff llywodraethu hysbysebu am bennaeth neu ddirprwy bennaeth o dan yr amgylchiadau a enwir. Cytunwn y gallai diwygiad o'r fath arbed amser ac arian wrth recriwtio, a chreu proses fwy effeithlon a thecach.

Cytunwn mewn egwyddor hefyd â'r awgrym i ganiatáu i gorff llywodraethu ystyried ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer swyddi o'r fath mewn ysgolion newydd/unedig eraill o fewn yr awdurdod lleol, heb hysbysebu'n genedlaethol.

Hoffem ychwanegu un pwynt. Gellid dychmygu sefyllfa ble na fyddai pennaeth/dirprwy bennaeth yn dymuno ymgeisio am swydd pennaeth/dirprwy bennaeth mewn ysgol gwahanol iawn ei natur (e.e. o ran maint) – ond y byddai'n awyddus i aros yn gyflogedig yn yr ysgol newydd/unedig. Byddem am weld ffordd o ddiogelu swydd addysgu ar gyfer cyn-bennaeth/cyn-ddirprwy bennaeth o'r fath yn yr amgylchiadau penodol hyn, a hynny'n rhan o'r Rheoliadau Staffio.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com